# Cyngor Tref **_NEFYN_** Town Council

<u>COFNODION</u> Cyfarfod Cyngor, Nos Fawrt 13/03/2018 Ysgol Nefyn am 7yh

**<u>Presennol</u>**

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| Arfon Hughes (CAD) | Gruffydd Williams | Guto Williams | Bleddyn Evans | Sharon Williams |
| Sian Hughes | Rhys Tudur | Glenda Rice | Catrin Roberts | Bethan Williams |
| Gwynfor Jones | Rhian Hughes-Jones (Clerc) | | | |

1. **Ymddiheuriadau**
   Wedi derbyn ymddiheuriadau gan Janice Evans, Andrew Owen.

2. **Datgan buddiant ariannol neu gysylltiad bersonol**
   Gruffydd Williams – Ceisiadau Cynllunio gan ei fod yn aelod o'r pwyllgor Cynllunio.
   Sian Hughes – Ceisiadau Cynllunio gan ei bod yn Aelod Lleol.
   Sharon Williams – Ceisiadau Cynllunio C18/0058/42/LL a C18/0157/42/LL.
   Catrin Roberts – Eglwys Santes Fair – Aelod o Bwyllgor Eglwys Santes Fair.
   Gwynfor Ellis Jones - Eglwys Santes Fair – Perthynas teuleuol.

3. **Cofnodion 13/02/2018 (er cywirdeb yn unig)**
   Wedi ei derbyn yn gywir.

4. **Unrhyw Fater Brys**
   Dafydd Rhun wedi ymddiswyddo o'i sedd sydd yn gadael sedd wag yn Nefyn.

5. **Eglwys Santes Fair Morfa Nefyn**
   Cyflwyniad gan Annie Sanson ysgrifenyddes eglwys Santes Fair Morfa Nefyn. Hyn er mwyn gobeithio cael cymorth ariannol gan y cyngor tref.
   Nodwyd bod llythyr o ofyn wedi ei yrru ar e-bost ac wedi derbyn copi o'r cyfrifon.

   Mae'r Eglwys angen dros £3000 er mwyn gallu gwneud gwelliannau i'r adeilad.
   Mae gan yr eglwys dros 50 o aelodau gyda gweithgareddau 4 I 5 gwaith y flwyddyn. Mae ysgol Edern yn gwneud defnydd rheolaidd o'r eglwys.
   Roedd 'Yr Eglwys yng Nghymru' wedi cau'r Eglwys. Y pwyllgor sydd wedi cadw'r eglwys yn agored.
   Nodwyd bod Sian Hughes fel aelod lleol yn gefnogol iawn o'r gwaith sydd yn mynd yn ei flaen yn yr Eglwys a'i fod yn ased gwerthfawr i'r gymuned. Mae eglwys Nefyn yn defnyddio'r adeilad ar gyfer seremoni fach gan fod yr eglwys yn Nefyn yn rhy fawr.

   Diolch i Annie am ei chyflwyniad

   Nodwyd bod Cyngor Tref Nefyn yn gefnogol iawn i'r gwaith sydd yn cael ei wneud yn Eglwys Santes Fair Edern. Mae'r eglwys eisoes wedi derbyn grant o £8000 gan AHNE a gydag arian wrth gefn eisoes nodwyd nad oes angen arian ar frys i fynd ymlaen hefo'r gwaith.
   Nodwyd bod £6600 wedi ei rhoi mewn cyfraniadau yn barod eleni ac nid oes pres wrth gefn i fwy o roddion. Cynigir rhoi rhodd o £1000 i'r eglwys yn ystod y flwyddyn ariannol nesaf.

Clerc: Rhian Hughes-Jones
Craig y Mor, Ffordd Dewi Sant, Nefyn, Pwllheli, Gwynedd, LL53 6EA.
• Symudol: 07748 906 651 • Ebost: clercctnefyn@gmail.com
Cadeirydd: Arfon Hughes • 07967 556651

6. **Traethau**
   Diweddariad gan Gruff Williams
   Nid oes unrhyw ddatblygiad ar ddatrysiad hir dymor gwarchod y traethau. Ni does unrhyw wybodaeth bellach gan yr Ymddiriedolaeth ond mae Cyngor Gwynedd yn nodi y bydd y trefniadau am eleni yn aros yr un fath.
   Bydd angen trefnu cyfarfod eto hefo Cyngor Gwynedd, Yr Ymddiriedolaeth a Chyngor Tref Nefyn – Gruff Williams, Sian Hughes ac Arfon Hughes. Nodwyd Sian Hughes aelod lleol Morfa Nefyn nad ydi hi wedi derbyn unrhyw ohebiaeth yn ymwneud a'r materion. Rhian Hughes-Jones I drefnu dyddiad at fis Medi fan bellaf.
   Bydd angen cael cyfarfod agored i'r gymuned i drafod newidiadau sydd yn cael eu trafod; Gwaredu un safle lansio, gosod bar ar draws y traeth ac ati.

7. **Polisi Cynllunio ar y Cyd Gwynedd a Mon**
   Adnabod llecynnau agored - Nefyn
   Rydym wedi derbyn map yn amlygu llecynnau agored yn Nefyn yw cytuno ac adrodd yn ôl. Ni does map ar gael ar gyfer Morfa Nefyn nac Edern – Rhian Hughes-Jones i edrych i mewn i hyn.
   Mae'n ofynnol I Gyngor Gwynedd gwneud asesiad o lefydd chwarae agored a beth sydd ar gael yn wahanol ardaloedd. Angen ymateb ffurfiol erbyn 13/04/2018.
   Ddylai bod mwy o offer ar gael i blant yn yr ardal ond nid oes arian ar gael yw darparu.
   Gruff am edrych ar yr ymgynghoriad ac adrodd yn ôl yn cyfarfod 10/04/2018.

8. **Llwybrau**
   Diweddariad gan Gruffydd Williams
   Cefn Tai Lon – Coeden wedi disgyn ar y llwybr. Mae'r cyngor i fod wedi cau'r llwybr.
   Glan Dwr – Tŷ Bwgan – Gareth (Contractwr) ddim wedi gorffen gan fod y tir yn rhy wlyb bydd hefyd angen caniatâd gan Cliffs I orffen y llwybr.
   Meinciau – Llwybr yr arfordir yw bellach, Cyngor Gwynedd yntau Cyngor Tref Nefyn sydd yn gyfrifol am y meinciau, mae'n fater yswiriant i'r Cyngor Tref. Rhian Hughes-Jones i gysylltu hefo Wyn Williams a Dewi Owen i drafod.

   Diweddariad gan Sian Hughes
   Trem y Garn – Ysgol Morfa Nefyn – Nodwyd Gwyn Lloyd Evans Swyddog Gorfodaeth, Cyngor Gwynedd bod tai Cynefin wedi cytuno rhoi'r llwybr yn ei le. Dim yn union fel ac y dymunir ond bydd yn llwybr diogel i'r ysgol. Lle gellir mynd a phram yn ddiogel ac yn hawdd.
   Bydd Sian Hughes yn cadw llygaid ar y sefyllfa ac yn gwneud yn siŵr bod y llwybr yn bwrpasol ac yn cael eu cyflawni cyn gynted a bod modd.
   Nodwyd bod palmant yn Edern yn beryg gyda nifer o dyllau ynddo; bydd yn cysylltu hefo Cyngor Gwynedd I ddatrys hyn.

9. **Y Ddol**
   Dim Diweddariad i gysoni gwybodaeth. Nid yw'r cyngor wedi derbyn diweddariad gan y datblygwr. Rhian Hughes-Jones i ddilyn i fynnu.

Clerc: Rhian Hughes-Jones
Craig y Mor, Ffordd Dewi Sant, Nefyn, Pwllheli, Gwynedd, LL53 6EA.
• Symudol: 07748 906 651 • Ebost: clercctnefyn@gmail.com
Cadeirydd: Arfon Hughes • 07967 556651

**10. Siop Siarad**

Diweddariad gan Gruff Williams – Gyda dim ond mis ar ôl ar les Siop Siarad Nefyn mae'n amser edrych i mewn i'r opsiynau sydd ar gael. Nid oes bres ar ôl i dalu am y Siop Siarad bellach mae'n gostau o £90 yr wythnos neu £390 y mis.

- Andrew Owen am edrych i mewn i gael grant hefo'r ieuenctid
- Cyfrifiaduron yn berchen i Gymunedau Digidol
- Llwybr yr arfordir i ddod i edrych ar y mapiau
- Mae'r cyngor tref angen storfa

Cynnig ein bod yn cysylltu hefo'r perchennog i ystyried gostyngiad. Nodwyd hefyd efalla'i gellir defnyddio gornel o'r llyfrgell fel storfa.

**11. Cadw Cymru yn Daclus**

Diweddariad gan Andrew Owen – Andrew ddim yn gallu mynychu heno felly yn gohirio at bwyllgor mis Ebrill.

**12. Cyfyngiad Cyflymder Ffordd Boduan**

Diweddariad – Rhian Hughes-Jones

Wedi derbyn llythyr gan Gyngor Cymuned Boduan yn gofyn am gefnogaeth yw llythyr cais i Gyngor Gwynedd yn y mater yma.

Mae'r cyngor Tref yn hapus i gefnogi Cyngor Cymuned Boduan I gyfyngu cyflymder i 40mya ar lon Boduan. Gweler map atodol.

**13. Llyfrgell**

Diweddariad gan Sharon Williams – Wedi cael cadarnhad bod y gwaith ar y ffenestr wedi ei wneud. Wedi edrych trwy'r les mae ychydig o bethau yw nodi;

- Angen gwneud asesiad Tan – profi yn rheolaidd
- Addurno bob tair blynedd
- Torri gwair a chwynnu
- Ysbwriel
- Glanhau ffenestri
- Allweddi a manylion cyswllt
- Yswiriant – Cyfrifoldeb blynyddol o £5,000,000

Disgwyl i'r twrne ddod yn ôl er mwyn i ni arwyddo.

**14. Cyfrifon y Cyngor**

Diweddariad gan Arfon Williams – Mae gwell trefn ar y PRESEPT eleni ond bydd angen trefnu is-bwyllgor ariannol i sicrhau ein bod yn cadw at y cynllun tair blynedd.

**15. Mynwentydd**

Diweddariad gan Rhian Hughes-Jones – Dal i edrych ar bin ysbwriel priodol. Bydd rhestr fer ar gael erbyn cyfarfod Ebrill.

Diweddariad Gruff Williams – wedi derbyn amryw o gwynion am y llanast sydd yn y fynwent. Bydd rhaid gweithredu ar hyn cyn gynted a bod modd. Arfon Hughes am gael 3 pris i godi ffens er mwyn symud ymlaen hefo'r gwaith.

Angen edrych hefyd ar gyflwr y lon ac oes angen rhoi clo ar y giât?

Trefnu is-bwyllgor Mynwentydd i hwyluso'r gwaith.

Clerc: Rhian Hughes-Jones
Craig y Mor, Ffordd Dewi Sant, Nefyn, Pwllheli, Gwynedd, LL53 6EA.
• Symudol: 07748 906 651 • Ebost: clercctnefyn@gmail.com
Cadeirydd: Arfon Hughes • 07967 556651

**16. Rheolau'r Cyngor**

Mae'n bwysig iawn i drefnu is-bwyllgorau cadarn;

- Ariannol
- Llyfrgell
- Traethau
- Rheolau
- Nadolig
- Llwybrau
- Mynwentydd

Bydd yr is-bwyllgorau angen cadeirydd gydag o leiaf 4 aelod arall. Dylai pob aelod o'r Cyngor Tref fanteisio ar y cyfle i fod yn aelod o'r is-bwyllgorau gydag o leiaf un aelod o bob ardal (Nefyn, Morfa Nefyn ac Edern) ar bob pwyllgor.

**17. Clirio Dofgfennau Hanesyddol**

Diweddariad - Rhian Hughes-Jones

Bwriedir mynd ymlaen hefo'r gwaith yn Siop Siared 24/03/2018

**18. Oriau ychwanegol y clerc**

Diweddariad – Arfon Hughes

Mae angen trefnu is-bwyllgor ariannol yn yr wythnosau nesaf i drafod y sefyllfa.

**19. Cyfarthrebu hefo'r Cyngor Tref**

Diweddariad – Gruff Williams

Wedi derbyn ei fod yn syniad da ar y dechrau i dderbyn yr holl wybodaeth ar e-bost gan y clerc ond yn bryderus am y nifer o e-byst sydd yn cael eu derbyn.

Eglurwyd bod yr e-byst i gyd yn cael eu gyrru er mwyn hwyluso amserlen ymateb lle gellir aelod rhoi unrhyw fater sydd yn codi yn syth ar yr agenda. Mae'r holl ohebiaeth ar y rhestr gohebiaeth ar yr agenda a dim ond rhai gyda ! sydd yn wir frys.

Cytunwyd i edrych ar y blwch e-bost mae'r aelodau yn eu defnyddio er mwyn hwyluso'r broses i'r aelodau.

**<u>Ceisiadau Cynllunio</u>**

**C18/0058/42/LL**
Ffenestr gromen cefn
Maes Y Ddol, Stryd Y Plas, Nefyn
**Dim Gwrthwynebiad**

**C18/0144/42/LL**
Estyniad i'r bragdy
Bragdy Cwrw Llyn, Parc Eithin, Ffordd Dewi Sant, Nefyn.
**Dim Gwrthwynebiad**

**C18/0153/42/LL**
Newid defnydd caffi i dy annedd ynghyd ag addasiadau
Caffi'r Penwaig, Penybryn, Nefyn
**Dim Gwrthwynebiad**

**C18/0157/42/LL**
Adeiladu estyniad unllawr
Gwern, Y Maes, Nefyn
**Dim Gwrthwynebiad**

**Gohebiaeth**

1. **Un Llais Cymru -** Bwletin Chwefror 2018
2. **SLCC** - Bwletin Chwefror 2018
3. **Clerks & Councils Direct** – Chwefror 2018
4. **Local Council Update** – Chwefror 2017
5. **Arolwg o'r trefniadau etholiadol ar gyfer sir Gwynedd -** Mae'r ymgynghoriad nawr ar agor
6. **Coflyfr yr Ombwdsmon -** Rhifyn 31
7. **Llywodraeth Cymru -** Dileu ffioedd llywodraeth leol am gladdu plant.
8. **Cymorth Cynllunio Cymru -** hyfforddiant am ddim ar gyfer Cynghorwyr Cymuned a Thref yn Gwynedd **20 o Chwefor 2018 am 6-9:15yp**
9. **Un Llais Cymru -** Holiadur Busnes Comisiynydd y Gymraeg
10. **Un Llais Cymru –** Seremoni Gwobrau Arfer Arloesol Blynyddol 2018
11. **Un Llais Cymru –** Hyfforddiant mis mawrth – gogledd Cymru
12. **Cymru'n Cofio** - Cynllun Grant Canmlwyddiant y Bleidlais i Fenywod – 'Dathlu Menywod yng Nghymru'
13. **Cyngor Iechyd Cymuned Gogledd Cymru -** Datganiad i'r Wasg ar ran Bwrdd Cynghorau Iechyd Cymuned yng Nhgymru
14. **Gorchymyn cyngor Gwynedd** - gwahardd a chyfyngu aros a mannau parcio ar y stryd gorchymyn amrywio (ardal dwyfor) 2018
15. **Llywodraeth Cymru** - Panel Yr Adolygiad Annibynnol
16. **Antur Aelhaearn** - Arddangosiad Ffilm
17. **Keep Britain Tidy -** Help Us Clean Up the Country
18. **Un Llais Cymru –** Aelodaeth Un Llais Cymru 2018-19
19. **Aren Cymru** – Taith dros fywyd Ebrill I Fehefin 2018
20. **Cyngor Gwynedd** - brosiect Gwynedd Ddigidol – Mynediad i bawb
21. **Cynulliad Cenedlaethol Cymru -** Ymgynghoriad ar y Bil Awtistiaeth (Cymru) draft
22. **Gareth Wyn Williams – Gohebydd** - **Trinity Mirror PLC** – Eisiau agenda misol.
23. **Comisiwn Ffiniau a Democratiaeth Leol** Canllaw i Brif Gynghorau
24. **Heneiddio'n Dda yng Nghymru** - Arolwg partner strategol
25. **Betsi Cadwaladr University Health Board –** Newyddion
26. **Llywodraeth Cymru -** Adroddiad Blynyddol Drafft Panel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol – Chwefror 2018
27. **Swyddfa Archwilio Cymru -** Llywodraethu a Rheolaeth Ariannol mewn Cynghorau Lleol 2016-17
28. **Llywodraeth Cymru Partneriaethau Llywodraeth Leol -** Cefnogaeth ariannu ar gael yn 2018-19
29. **Un Llais Cymru** – Cyfarfod Pwyllgor Ardal Arfon / Dwyfor 7:00pm 15/03/2018 Cyngor Tref Pwllheli.
30. **Llywodraeth Cymru** - Ymgynghoriad ar Rifyn 10 Polisi Cynllunio Cymru.
31. **Cyngor Gwynedd** – Gorchymyn Gwahardd a Chyfyngu Aros a Mannau Parcio Dwyfor 2018
32. **Panel AnnibynnolCymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol** - ddigwyddiad trafodaeth bord gron ar ei fframwaith cydnabyddiaeth ariannol

# Cyngor Tref ***NEFYN*** Town Council

COFNODION Cyfarfod Cyngor, Nos Fawrt 13/03/2018 Ysgol Nefyn am 7yh

**Taliadau wedi cael ei cymeradwyo**

| | |
|---|---|
| **Cyflog y clerc –** | |
| Chwefror £726.93 | |
| Taliad ychwanegol £286.00 | **£930.21** |
| **PAYE -** HM Revenue & Customs | **£13.76** |
| **Clif Hughes** – | |
| 6ed taliad contract £1060.00 | **£1060.00** |
| **Un Llais Cymru** – Aelodaeth | **£474.00** |
| **J G Jones –** Mynwentydd | |
| 28.02.2018 - £400.00 | |
| 28.02.2018 – £350.00 | |
| 28.02.2018 - £70.00 | **£820.00** |
| **SLCC** – Aelodaeth (Dim wedi derbyn siec yrrwyd 13/06/2017) | **£108.00** |
| **Mr D M Parry** – Mynwentydd | |
| 6ed Taliad Nefyn | |
| 6ed Taliad Morfa | **£999.00** |
| | |
| **Taliadau wedi eu derbyn** | **£0.00** |

**Ceisiadau am gyfraniad**

1. **Y Groes Goch Brydeinig – Cais Blynyddol am arian i gefnogi Gwasanaethau Lleol**
2. **Grŵp mynediad Dwyfor**
3. **Marie Curie – Gwasanaeth Nyrsio**
4. **Theatr Bara Caws – Gymorthdal I flwyddyn 2017-18**
5. **Eisteddfod yr Urdd – Cyfraniad tuag at Eisteddfod yr Urdd Brycheiniog a Maesyfed 2018**
6. **Gwasanaeth Ambiwlans Cymru - Cefnogi Staff, 150 Hamper I staff a fydd yn gweithio dros y nadolig i ddiolch a Gwobrau i staff.**
7. **Eisteddfod Gerddorol Ryngwadol Llangollen**
8. **Dawns i bawb – Dawns mewn ysgolion, cartrefi henoed a Llyfrgelloedd.**
9. **Clwb Nofio PBP – Porthmadog Blaenau Ffestiniog a Pwllheli.**
10. **Gŵyl Cerdd Dant Blaenau Ffestiniog a`r Fro 2018**
11. **Cylch Meithrin Nefyn – Cyfraniad at adnoddau.**
12. **Cymdeithas Pared Dewi Sant Pwllheli.**
13. **Elusen Ambiwlans Awyr Cymru – Apél Ambiwlans Awyr Cymru i Blant**
14. **Canolfan Therapi Plant Cymru**

**Materion yw rhoi ar agenda Nesaf:** Sedd Wag (Llywodraethwyr Ysgol)

Ffiniau Cynghorau (23/04/2018)

Cyfraniadau Ysgolion

Clerc: Rhian Hughes-Jones
Craig y Mor, Ffordd Dewi Sant, Nefyn, Pwllheli, Gwynedd, LL53 6EA.
• Symudol: 07748 906 651 • Ebost: clercctnefyn@gmail.com
Cadeirydd: Arfon Hughes • 07967 556651

# Cyngor Tref ***NEFYN*** Town Council

<u>COFNODION</u> Cyfarfod Cyngor, Nos Fawrt 13/03/2018 Ysgol Nefyn am 7yh

## Cyngor Tref ***NEFYN*** Town Council

**Cyfyngiad Cyflymder Ffordd Boduan Mawrth 2018**




Clerc: Rhian Hughes-Jones
Craig y Mor, Ffordd Dewi Sant, Nefyn, Pwllheli, Gwynedd, LL53 6EA.
• Symudol: 07748 906 651 • Ebost: clercctnefyn@gmail.com
Cadeirydd: Arfon Hughes • 07967 556651

Clerc: Rhian Hughes-Jones
Craig y Mor, Ffordd Dewi Sant, Nefyn, Pwllheli, Gwynedd, LL53 6EA.
• Symudol: 07748 906 651 • Ebost: clercctnefyn@gmail.com
Cadeirydd: Arfon Hughes • 07967 556651